

ACCESS TO RESEARCH

Chwilio Erthyglau Cyfnodolyn



**Access to
Research**

Gallwch chwilio gan ddefnyddio geiriau allweddol, enwau awduron, teitlau erthyglau a chyfnodolion. Fodd bynnag, gall pori drwy eich canlyniadau chwilio fod yn gymhleth felly mae gennym rai awgrymiadau i'ch rhoi ar ben ffordd!



Defnyddiwch ddyfynodau

Mae gosod ymadroddion oddi mewn i ddyfynodau yn ffordd dda o wella a chyfyngu ar eich canlyniadau chwilio. Er enghraifft, "Richard III".



Mireiniwch eich canlyniadau

Defnyddiwch yr offer ar ochr chwith eich canlyniadau i fireinio eich chwiliad yn ôl: math o gynnwys, dyddiad cyhoeddi, termau pwnc, iaith a disgyblaeth.



Pynciau cysylltiedig

I'r dde o'ch canlyniadau chwilio, fe welwch restr o bynciau cysylltiedig. Er enghraifft, wrth chwilio "Richard III" efallai y gwelwch y pwnc cysylltiedig; 'House of Plantagenet'.

Gall chwilio cyfnodolion academiaidd fod yn brofiad brawychus os nad ydych chi wedi arfer gwneud hynny, ond peidiwch â phoeni, daliwch ati i ymarfer a byddwch yn chwilio'n hyderus cyn bo hir!

